**Swyddog Recriwtio Aelodaeth (Gogledd Ddwyrain Cymru)**
**SWYDD DDISGRIFIAD**

**Lleoliad:** Pan fydd y swyddog 'allan', lleoliadau ledled Gogledd Cymru, Wrth ymgymryd â gwaith yn swyddfa, Swyddfa'r Dwyrain YNGC, Yr Wyddgrug.

**Yn atebol i:** Rheolwr Marchnata a Recriwtio Aelodaeth

## PWRPAS CYFFREDINOL Y SWYDD

Ymgysylltu ag aelodau o'r cyhoedd a'u hannog i gefnogi'r Ymddiriedolaeth Natur fel aelodau, drwy eu hysbrydoli am waith yr Ymddiriedolaeth Natur mewn digwyddiadau neu leoliadau eraill ar draws y rhanbarth.

## PRIF GYFRIFOLDEBAU

- Trafod a nodi, trefnu a mynychu ystod eang o ddigwyddiadau neu leoliadau addas a hygyrch i'r cyhoedd ar draws rhanbarth Gogledd Cymru gyda'r Rheolwr Marchnata a Recriwtio Aelodau, gan gynnwys:
    - Sioeau lleol a sirol a gwyliau eraill
    - Atyniadau sefydlog i dwristiaid a / neu ymwelwyr lleol
    - Safleoedd manwerthu
    - Gwarchodfeydd natur Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
    - Digwyddiadau sy'n cael eu trefnu gan aelodau eraill o staff yr Ymddiriedolaeth Natur a / neu wirfoddolwyr

- Annog aelodau'r cyhoedd i gefnogi'r Ymddiriedolaeth Natur, yn bennaf drwy aelodaeth ond hefyd drwy roddion, gwerthu nwyddau neu drwy hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddoli, a chwrdd â thargedau cysylltiedig
- Gweithio'n agos gyda staff a gwirfoddolwyr eraill yr Ymddiriedolaeth Natur i helpu i gyflwyno digwyddiadau i'r safon uchaf bosibl, gan fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd i recriwtio aelodau newydd a hyrwyddo amcanion elusennol craidd yr Ymddiriedolaeth Natur

- Codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o waith yr Ymddiriedolaeth Natur drwy ryngweithio wyneb yn wyneb, gan sicrhau y cedwir at ganllawiau brand yr Ymddiriedolaeth Natur
- Sicrhau y cedwir at ddeddfwriaeth berthnasol ac arfer da bob amser, gan gynnwys:
    - Codi arian
    - Iechyd a Diogelwch
    - Cydymffurfiaeth lawn â'r Ddeddf Diogelu Data

- Cefnogi'r Rheolwr Marchnata a Recriwtio Aelodaeth a'r Swyddog Cyfathrebu i gynhyrchu llenyddiaeth a deunyddiau sy'n ymwneud ag aelodaeth (e.e. eitemau stondin arddangos, ffurflenni a gwaith papur)
- Cefnogi'r Rheolwr Marchnata a Recriwtio Aelodaeth i sefydlu diwylliant o 'allu gwneud' wrth recriwtio aelodau o fewn yr Ymddiriedolaeth Natur ehangach
- Cynnal a chadw a gofalu am yr holl ddeunyddiau recriwtio ar gyfer digwyddiadau / aelodaeth
- Casglu data manwl gywir am bresenoldeb yn y digwyddiad a llwyddiant neu fel arall o ran cyflawni amcanion

Nid yw'r rhestr uchod yn hollgynhwysfawr a bydd gofyn i ddeiliad y swydd gyflawni dyletswyddau eraill o bryd i'w gilydd, sy'n gyson â phwrpas y swydd. Sylwch fod y rôl hon yn gofyn am weithio'n rheolaidd ar benwythnosau a gwyliau cyhoeddus, ac weithiau bydd angen dechrau'n gynnar a gorffen yn hwyr pan fydd unrhyw ddigwyddiadau'n gofyn am hynny.

Er mwyn i'r sefydliad weithio'n effeithiol, efallai y bydd gofyn i chi gynorthwyo gyda meysydd gwaith eraill ac, felly, dylech fod yn barod i ymgymryd â dyletswyddau eraill sy'n briodol i'r swydd, ac unrhyw ddyletswyddau rhesymol eraill sy'n ofynnol.

**Mae'r holl staff yn llysgenhadon i'r sefydliad yn fewnol ac yn allanol a disgwylir iddynt weithredu mewn ffordd broffesiynol bob amser. Mae'n ofynnol iddynt gydymffurfio â rheolau, polisïau a gweithdrefnau sefydliadol fel maent wedi'u nodi yn llawlyfr y staff, mabwysiadu arferion gwaith sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd, pennu a chynnal safonau personol uchel o ran effeithlonrwydd a gofal cwsmeriaid a meithrin diwylliant o 'allu gwneud' yn seiliedig ar berchnogaeth, menter, gwaith tîm a chyfnewid gwybodaeth.**

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
North Wales Wildlife Trust

**TEITL Y SWYDD**
**MANYLEB PERSON**

| | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| **Cymwysterau** | | |
| Wedi cael addysg i safon TGAU | x | |
| Wedi cael addysg hyd at lefel gradd | | x |
| Cymwysterau priodol eraill (e.e. mewn gwasanaeth cwsmeriaid) | | x |
| **Profiad** | | |
| Dangos profiad o weithio'n uniongyrchol gydag aelodau'r cyhoedd | x | |
| Profiad o weithio mewn amgylchedd codi arian neu werthu, yn unol â thargedau y cytunwyd arnynt | | x |
| Dangos profiad o gynnal digwyddiadau yn unol â chyllidebau y cytunwyd arnynt | | x |
| **Gwybodaeth, Sgiliau a Galluoedd** | | |
| Dangos ymwybyddiaeth o waith Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru a'r sector amgylcheddol ehangach | x | |
| Gallu gweithio'n hyblyg ac yn effeithlon ar ei liwt ei hun, gan weithio'n unigol yn aml | x | |
| Agwedd gyfeillgar a chroesawgar yn gyson tuag at bobl o amrywiaeth o gefndiroedd | x | |
| Trwydded Yrru lawn y DU (efallai y bydd cerbyd gan yr Ymddiriedolaeth Natur ar gael) | x | |
| Gallu siarad, darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg | | x |
| Profiad o weithio gyda gwirfoddolwyr | | x |
| Cyfarwydd ag ystod o becynnau cyfrifiadurol, gan gynnwys Microsoft Office | | x |
| Dealltwriaeth bresennol o arfer da / deddfwriaethau sy'n ymwneud â chodi arian, diogelu data ac iechyd a diogelwch | | x |
| **Cyffredinol** | | |
| Cyfforddus yn gweithio i dargedau penodol | x | |
| Cydymdeimladol, yn enwedig gyda gwirfoddolwyr | x | |
| Cwbl gyfforddus yn hyrwyddo rhaglen aelodaeth yr Ymddiriedolaeth ac yn gallu dangos hyn | x | |
| Gallu gweithio penwythnosau a rhai nosweithiau | x | |